# Trechu tlodi gyda'n gilydd

## Creu gwasanaethau tosturiol yn yr ysgol i helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi



# Cynnwys


Cyflwyniad 5

Mynd i'r afael â thlodi yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio dull Hawliau Plant 6

Beth all ysgolion ei wneud 6

> Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

> Creu gofod ar gyfer sgyrsiau tosturiol

> Sgwrsio gyda rhieni a gofalwyr am dlodi, costau ac arian

> Sgwrsio am dlodi gyda chydweithwyr ac yn eich rhwydweithiau ehangach

> Lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â'ch gwasanaethau i leddfu tlodi

> Cyfraniad ysgolion at drechu tlodi

Diffinio tlodi 20

Hyd a lled tlodi plant yng Nghymru 22

Beth sy'n achosi tlodi 23

Sut y mae tlodi yn effeithio ar fywydau plant 25

Hawliau eraill plant y dylai ysgolion fod yn ymwybodol ohonyn nhw 26

# Trechu tlodi gyda'n gilydd

Darn o waith a wnaed ar y cyd yw hwn, gyda gwahanol adrannau wedi'u llunio gan arbenigwyr ym maes addysg a thlodi o'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru a Children North East, gan ddefnyddio enghreifftiau a'r hyn a ddysgwyd o'u prosiectau a'u gwaith ymchwil presennol. Mae safbwyntiau a phrofiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael sylw drwy'r holl ddogfen. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) ledled Cymru, ymchwilwyr sydd ar y rheng flaen mewn ysgolion, cynghorwyr ymarfer, arbenigwyr cyfathrebu ac arbenigwyr polisi.

## 1. Prosiect Cost y Diwrnod Ysgol yn y Deyrnas Unedig

Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a ddechreuodd brosiect Cost y Diwrnod Ysgol, a hynny yn yr Alban yn 2014. Y nod oedd mynd i'r afael â'r problemau ariannol sy'n rhwystro dysgwyr rhag cymryd rhan lawn yn y diwrnod ysgol. Mae edrych ar Gost y Diwrnod Ysgol yn golygu gweithio gyda chymunedau ysgolion cyfan i ganfod a lleihau'r rhwystrau costau y mae dysgwyr o gefndiroedd incwm isel yn eu hwynebu, gan gynnwys costau bwyta yn yr ysgol, costau gwisg ysgol, a chostau teithiau ysgol. Yn dilyn llwyddiant y prosiect hwn yn yr Alban, ymunodd y Grŵp Gweithredu â Children North East i ehangu'r prosiect i awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a rhannau eraill o'r Alban. Y tu hwnt i weithredu ar lefel ysgolion, rydyn ni'n gweithio hefyd gyda llywodraethau lleol a chenedlaethol i gyflwyno newidiadau i systemau a pholisïau. Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol sy'n ariannu'r gwaith hwn. Mae rhagor o wybodaeth fan hyn: cpag.org.uk/cosd

## 2. Poverty Proofing© the School Day

Mae 'Prawfesur Tlodi y Diwrnod Ysgol' ('Poverty Proofing© the School Day'), sef prosiect a ddatblygwyd gan Children North East ar ôl ymgynghori drwy Ogledd-ddwyrain Lloegr yn 2011, yn rhoi lle canolog i bwysigrwydd llais plant yn y penderfyniadau y bydd uwch arweinwyr yn eu gwneud. Mae Prawfesur Tlodi yn broses sy'n golygu siarad gyda phob un plentyn mewn ysgol i ganfod y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth ymwneud â'u haddysg, ac i ganfod y stigma a'r gwahaniaethu sy'n wynebu'r rheini sy'n dioddef o effeithiau tlodi. Yn ogystal â phlant, mae'r broses yn cynnwys ymwneud â staff, llywodraethwyr a rhieni i wir ddeall cyd-destun amgylchiadau byw plant, ac i allu gwneud argymhellion ystyrlon a lleol. Rydyn ni'n cydnabod yn Children North East bod tlodi yn effeithio ar wahanol gymunedau mewn ffyrdd gwahanol. Hyd yma, rydyn ni wedi siarad gyda dros 190,000 o blant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig, ac mae Children North East yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y llais hwn yn cael effaith genedlaethol. I gael rhagor o wybodaeth neu i drafod sut i 'Brawfesur Tlodi' yn eich ysgol chi, ewch i povertyproofing.co.uk neu anfonwch e-bost i info@povertyproofing.co.uk

# 3. Gofynion Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru ynghylch "Lleihau costau mynd i'r ysgol neu'r coleg"

Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru yn cynrychioli mwyafrif athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol Cymru, ac wedi ymrwymo i wneud y sector addysg yn un gwych i weithio a dysgu ynddo. Mae ein haelodau'n gallu gweld o lygad y ffynnon sut y mae tlodi'n cyfyngu ar gyfleoedd bywyd plant, a sut y mae'n effeithio'n sylweddol ar eu profiadau addysgol ac ar ddeilliannau yn yr ysgol.

Cyn etholiadau'r Senedd yn 2021, galwodd aelodau NEU Cymru ar Lywodraeth Cymru i "Leihau costau mynd i'r ysgol neu'r coleg", gan ofyn am y canlynol:

- Sicrhau bod gan bawb yn yr ysgol a'r coleg y cyfarpar TG a'r wi-fi y mae eu hangen arnyn nhw i ddysgu gartref.
- Sicrhau bod prydau ysgol am ddim ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Sicrhau bod pawb sy'n cael y Credyd Cynhwysol yn cael Prydau Ysgol am Ddim.
- Gwneud gwisg ysgol yn fforddiadwy.
- Rhoi cymorth ar gyfer costau ychwanegol cyrsiau a hyfforddiant.
- Cynyddu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg i £45 yr wythnos.

Mae pob plentyn yn haeddu cyfleoedd teg i gael addysg, ond ni all ysgolion 'ddatrys' problem tlodi plant heb gymorth a heb newid y system.

# Creu gwasanaethau tosturiol yn yr ysgol i helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi

## Cyflwyniad

Yn y canllaw hwn, rydyn ni'n cyflwyno rhai camau bychain y gall ysgolion eu cymryd i wneud dysgu'n fwy hygyrch i blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Nid dechrau'r sgwrs yw'r adnodd hwn, gan ein bod ni'n gwybod bod ysgolion yn ceisio cynorthwyo disgyblion bob dydd. Am y rheswm hwnnw, fe all aelodau NEU Cymru ymuno ag eraill a rhannu enghreifftiau o arferion sy'n gweithio'n dda yn eu hysgol nhw. Mae manylion cysylltu NEU Cymru i'w gweld ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Ym mhob ysgol yng Nghymru, mae nifer cynyddol o deuluoedd sydd ar incwm isel yn ei chael hi'n anodd dal dau ben llinyn ynghyd. Roedd y cyfraddau tlodi eisoes yn uchel iawn cyn Covid-19, ac mae effaith economaidd y pandemig a'r argyfwng costau byw dilynol wedi gadael llawer mwy o deuluoedd yn brin o'r holl bethau y mae eu hangen arnyn nhw.

**88%**

Mae 88% o aelodau'r NEU yn dweud bod tlodi plant ymhlith eu dysgwyr wedi gwaethygu ers dechrau 2020

Mae tlodi'n effeithio ar bob agwedd o fywyd plentyn. Yn yr ysgol, fe all hyn olygu nad yw plant yn cael cyfleoedd i gyfranogi, dysgu a ffynnu. Ond fe all ysgolion hefyd gyfrannu wrth leihau effaith tlodi plant, gan sicrhau nad yw plant yn wynebu effeithiau gwaethaf yr argyfwng costau byw. Rydyn ni wedi datblygu'r canllaw hwn i helpu athrawon a staff ysgolion i ddeall sut y mae tlodi'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac i roi adnoddau, argymhellion ac atebion i gynorthwyo teuluoedd mewn ffordd dosturiol drwy fynd i'r afael â chost mynd i'r ysgol a stigma yn yr ysgol sy'n gysylltiedig â thlodi.

Mae'r adnodd yn ffrwyth cydweithio rhwng aelodau NEU Cymru, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Children North East. Fe all arweinwyr ysgolion a staff yn ein holl ysgolion a cholegau ei ddefnyddio, waeth ble maen nhw ar eu taith i fynd i'r afael â thlodi, lleihau stigma a rhoi sylw i gostau. Rydyn ni'n cydnabod bod pob ysgol yn gweithredu yn ei chyd-destun unigol ei hun, gyda chyfleoedd a heriau unigryw. Mae'r wybodaeth, y syniadau a'r awgrymiadau yn y llawlyfr hwn wedi'u rhoi'n uniongyrchol gan aelodau NEU Cymru, ynghyd â phlant, teuluoedd a staff ysgolion sy'n perthyn i rwydwaith ysgolion Cost y Diwrnod Ysgol yng Nghymru.

Fe all athrawon a staff ysgolion addasu'r dulliau hyn o weithio mewn ffordd sy'n gweddu i gymuned eu hysgol nhw. Nid yw mynd i'r afael â thlodi yn yr ysgol yn broses rwydd na syml, ond mae'n broses hanfodol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael profiad cyfiawn a theg yn ystod y diwrnod ysgol. Mae cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses hon yn hollbwysig ac yn werthfawr, gan eu bod nhw'n gallu rhoi gwybodaeth bwysig am eu profiadau eu hunain, a nhw sy'n aml yn y sefyllfa orau i greu atebion cynhwysol. Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr adnodd hwn yn helpu athrawon a staff ysgolion i fwrw ymlaen â'r sgwrs am dlodi yng nghyd-destun yr ysgol, gan eu galluogi i gydnabod ac ymateb i dlodi ble gallan nhw.

# Mynd i'r afael â thlodi yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio dull Hawliau Plant

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cytuniad yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n cyflwyno'r holl hawliau sylfaenol a ddylai fod gan bob plentyn ym mhobman. Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn ac i rywun wrando o ddifrif ar y farn honno – mae hyn yn cynnwys yn yr ysgol.

**Erthygl 12:** Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau am bob mater sy'n effeithio arno, a hawl i rywun wrando o ddifrif ar y farn honno a rhoi sylw o ddifrif iddi.

## Mynd i'r afael â thlodi yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio dull hawliau plant

Mae dull sydd wedi'i seilio ar Hawliau Plant yn golygu defnyddio fframwaith o egwyddorion a chamau ymarferol sy'n rhoi'r Confensiwn yn ganolog yn y broses gynllunio a chyflawni. Mae'n golygu gwreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisïau ac ymarfer.

**Mae dull sydd wedi'i seilio ar Hawliau Plant yn sicrhau bod plant a phobl ifanc:**

- Yn cael cyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon
- Yn elwa o gymryd rhan
- Yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu grymuso a'u clywed
- Yn gallu gwneud gwahaniaeth
- Yn gwella'u haddysg a'u sgiliau drwy gyfleoedd i gymryd rhan.

I gael cyngor ynghylch sut i sgwrsio gyda dysgwyr am dlodi ac anghydraddoldeb, ewch i'r adran "Sut i sgwrsio am dlodi" ar dudalen 15.

## Pam ddylen ni ddefnyddio dull Hawliau Plant?

Mae deall profiadau plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn yr ysgol yn ganolog i'n hymdrechion i sicrhau bod pob dysgwr yn cael addysg gadarnhaol a gwerth chweil. Mae meithrin dealltwriaeth o hawliau wedi'i wreiddio yn y Cwricwlwm i Gymru drwy ddisgrifiadau dysgu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad Dyniaethau ac Iechyd a Llesiant, ac mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhan o gyfraith Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.[1]

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi creu canllawiau y Ffordd Iawn i helpu sefydliadau i fynd ati'n ymarferol i flaenoriaethu hawliau plant drwy eu gwaith.

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-cynllun-gweithredu

# Beth all ysgolion ei wneud

## Fe all ysgolion helpu i fynd i'r afael ag effaith tlodi plant mewn pedair ffordd:

1. Cymryd camau pwrpasol i gael gwared ar stigma sy'n gysylltiedig â thlodi, gan drin yr holl blant a'u teuluoedd mewn ffordd sy'n dangos tosturi, urddas a pharch.
2. Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi, drwy helpu teuluoedd i gynyddu eu hincwm cymaint ag y bo modd, drwy eu helpu i gael yr holl gymorth y mae ganddyn nhw'r hawl iddo, ac os yw hynny'n addas, drwy helpu rhieni a gofalwyr i weithio.
3. Lleihau cost y diwrnod ysgol, gan gydnabod bod pob ceiniog a phunt yn bwysig i rai teuluoedd.
4. Rhoi cymorth i deuluoedd sy'n brin o adnoddau fel bwyd, dillad a nwyddau eraill.

**Rydyn ni wedi rhoi rhai syniadau ymarferol isod:**

## Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i greu gyda'r uchelgais y bydd holl ddysgwyr Cymru yn cael eu herio a'u cefnogi ac yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial llawn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan y dylai profiadau dysgu fod yn gynhwysol ac yn hygyrch, ac y dylai natur y cwricwlwm a'r cymorth a roddir yn yr ysgol geisio mynd ati'n bwrpasol i leihau bylchau mewn cyrhaeddiad.

Wrth i ysgolion ddechrau datblygu eu cwricwla eu hunain, mae nifer wedi croesawu'r cyfle i gynnig profiadau mwy amrywiol a chyfoethog i blant a phobl ifanc, ac yn enwedig i'r dysgwyr hynny a allai ei chael hi'n anodd dysgu yn y fath fodd y tu allan i'r ysgol. Serch hynny, fe allai fod cost ychwanegol ynghlwm wrth y gweithgareddau a'r profiadau hyn, a phan na fydd cyllidebau ysgolion yn cael eu cynyddu i dalu am yr adnoddau angenrheidiol, efallai y bydd ysgolion yn teimlo bod yn rhaid trosglwyddo'r gost honno i deuluoedd. Dywedodd 52 y cant o aelodau NEU Cymru wrthyn ni eu bod nhw'n credu y bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn arwain at sefyllfa lle bydd ysgolion yn gofyn i deuluoedd am fwy o gyfraniadau ariannol nag ar hyn o bryd, gydag 20 y cant o'r aelodau'n dweud eu bod yn pryderu y bydd gofyn i deuluoedd gyfrannu llawer mwy nag y maen nhw'n ei gyfrannu ar hyn o bryd.

*"Mae'r cwricwlwm yn gofyn i ysgolion roi profiadau, ond mae llawer o'r rhain yn costio arian nad oes gan ysgolion mohono i'w wario."*

(Athro, ysgol gynradd, Castell-nedd Port Talbot)

*"Bydd profiadau 'go iawn' yn arwain at gostau uwch o ran trafnidiaeth, deunyddiau ac ati."*

(Athro, ysgol uwchradd, Caerffili)

Mynegodd rhai o aelodau'r NEU bryder y gallai cyfuno mwy o feysydd pwnc creadigol â meysydd fel Cymraeg, Saesneg a daearyddiaeth arwain at gostau newydd, gan y bydd angen talu am ddeunyddiau dysgu. Dyma gostau nad ydyn nhw'n cael eu trosglwyddo i deuluoedd ar hyn o bryd.

*"Bydd mwy o ofynion o ran adnoddau, er enghraifft celf a chrefft yn y cwricwlwm creadigol, ac o ran profiadau eraill, ond dim arian ychwanegol wedi'i roi i brynu neu i dalu costau'r adnoddau ychwanegol a fydd yn angenrheidiol. Mae'n rhaid rhoi profiadau ond heb arian i ddarparu'r adnoddau, bydd yn rhaid gofyn i rieni i dalu'r costau ychwanegol."*

(Athro, ysgol gynradd, Wrecsam)

*"Mae cost tanwydd yn unig wedi codi costau llogi bysus i fynd â'r plant i'r gymuned i gael y profiadau sy'n ddisgwyliedig o dan y cwricwlwm newydd."*

(Athro, ysgol gynradd, Castell-nedd Port Talbot)

*"O ran fy mhwnc i, i allu fforddio darparu'r cwricwlwm newydd yn y ffordd iawn a'r ffordd fwyaf effeithiol, byddai angen mwy o gyfraniadau gan rieni."*

(Athro Technoleg Bwyd, ysgol uwchradd, Merthyr Tudful)

*"Mae llawer o weithdai a gweithgareddau'n cael eu trefnu i blant sy'n wych, ac rydw i wastad yn falch bod ffyrdd newydd o addysgu ac ysgogi fy mhlentyn, ond fe all y rhain gostio rhwng £5 ac £20, sy'n swm sylweddol os yw hyn yn rheolaidd, ynghyd â diwrnodau gwisgo lan ac ati."*

(Rhiant/gofalwr, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf)

Mae llawer o ysgolion eisoes yn ystyried sut i leihau costau wrth ddylunio'u cwricwlwm newydd. Drwy roi ystyriaethau cost yn flaenllaw yn y broses gynllunio a dylunio, weithiau mae'n bosibl sicrhau arbedion maint, yn enwedig wrth ystyried sut i gronni adnoddau a phrofiadau dysgu gyda grwpiau blynyddoedd eraill neu hyd yn oed ysgolion eraill.

*"Rwy'n ymwybodol o'r cwricwlwm newydd, sy'n ceisio creu cysylltiadau lleol ac yn ceisio hyrwyddo teithiau yn yr ardal leol, gan ddysgu am yr ardal leol. Felly bydda' i'n ceisio gwneud rhywbeth o fewn pellter cerdded. Os ydyn ni i gyd yn gwneud yr un pynciau drwy'r holl ysgol, wn i ddim pa mor ymarferol yw hyn, ond mae'n bosibl y gellid newid pethau rywfaint ac ymweld â rhywle i'n helpu i ddeall yn well. Mae Blwyddyn 1 a 2 yn gwneud yr un peth, felly efallai y gallen ni wneud taith ar y cyd a rhannu'r costau teithio."*

(Athro, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf)

Mewn rhai ysgolion, drwy ymrwymo cyllidebau canolog i sicrhau bod gan ystafelloedd dosbarth stociau da, mae modd i staff addysgu gynllunio ar gyfer yr ystod ehangaf o gyfleoedd dysgu heb orfod poeni am ofyn i deuluoedd am roddion neu ofyn iddyn nhw dalu am bethau o'u pocedi'u hunain.

*"Mae gennyn ni ddeunydd ysgrifennu ac adnoddau fan hyn. Does dim rhaid iddyn nhw brynu dim byd. Hyd yn oed teithiau ysgol – fydden ni byth yn gadael plentyn ar ôl gan nad yw rhiant yn gallu talu. Bydden ni'n defnyddio ein cyllid ni i dalu drostyn nhw"*

(Cynorthwyydd Addysgu, ysgol gynradd, Castell-nedd Port Talbot)

*"O ran adnoddau, bydda' i wastad yn ceisio cadw popeth yn y dosbarth, neu os mai deunyddiau wedi'u hailgylchu rydyn ni'n eu defnyddio, bydda' i wastad yn meddwl beth fydd ganddyn nhw yn y tŷ? Fydd pob disgybl ddim yn gallu mynd i Poundland i brynu pethau syml fel glud, pinnau ysgrifennu a phensiliau. Mae gennyn ni [system sy'n gwobrwyo ymddygiad drwy roi pwyntiau] sy'n eu galluogi nhw i brynu pinnau ysgrifennu a phensiliau, ond mae'n gylch dieflig – os bydd pethau'n digwydd gartref, efallai y byddan nhw'n camymddwyn yn yr ysgol, felly wnaiff yr athro ddim rhoi pwyntiau [i wobrwyo ymddygiad] iddyn nhw, felly fydd ganddyn nhw ddim mo'r adnoddau y maen arnyn nhw'u hangen. Rydyn ni i fod i roi sgôr negatif os na fydd plentyn yn dod â phin ysgrifennu neu bensil, ond dydw i ddim yn gwneud hynny."*

(Athro celf, ysgol uwchradd, Castell-nedd Port Talbot)

Wrth i brisiau tanwydd godi, darparu trafnidiaeth yw un o'r pryderon mwyaf a rannodd aelodau NEU Cymru â ni. Mae rhai ysgolion yn manteisio ar y systemau dysgu ar-lein a ddatblygwyd ganddyn nhw yn ystod y cyfnodau clo er mwyn i westeion allanol allu cyfrannu ar-lein. Mewn un ysgol, bydd y plant yn cynllunio ac yn cynnal cyfweliadau ag ymwelwyr drwy gyswllt fideo.

*"Mae bysus yn ddrud pan fydd modd inni deithio. Rydyn ni wedi dechrau defnyddio cyfweliadau byw ar-lein fel rhan o'n prosesau dysgu, sy'n costio dim mwy nag amser pobl."*

(Aelod o staff, ysgol gynradd, Castell-nedd Port Talbot)

## Creu gofod ar gyfer sgyrsiau tosturiol

Mae aelodau NEU Cymru yn dweud wrthyn ni mai'r gallu i feithrin a chynnal perthnasau cryf â phlant a'u teuluoedd yw sylfaen y gwaith o fynd i'r afael â thlodi yn eu lleoliadau.

Yn ôl plant, pan fyddan nhw'n teimlo bod staff yr ysgol yn eu deall ac yn gofalu am eu llesiant cyffredinol, maen nhw'n mwynhau'r ysgol mwy ac yn teimlo'u bod nhw'n gallu gwneud eu gorau. Yn ôl rhieni a gofalwyr, maen nhw'n gwerthfawrogi'n fawr pan fydd ysgolion yn siarad gyda nhw mewn ffordd dosturiol ac yn ceisio trin ceisiadau am gymorth yn dawel bach.

*"Rwy'n ymfalchïo yn fy ngallu i feithrin perthynas â phobl... Rydw i eisiau i'r rhieni wybod nad ydw i yma i addysgu eu plant yn unig. Ein gwaith cyntaf yw sicrhau eu bod nhw'n ddiogel, yn hapus ac yn falch o fod yn yr ysgol"*

(Athro, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf)

Nid yw sgwrsio am dlodi wastad yn hawdd. Mae'r adran hon yn cynnwys cyngor ymarferol ar gyfer sgwrsio am dlodi gyda dysgwyr, rhieni a gofalwyr, a gyda'ch cydweithwyr neu eich rhwydweithiau ehangach.

**Sgwrio am dlodi gyda dysgwyr.**

Pam mae hi'n bwysig sgwrsio gyda dysgwyr am dlodi?

- Mae'n eich helpu i ddeall profiadau plant a phobl ifanc o dlodi.
- Mae'n helpu i wneud dysgwyr eraill sydd heb brofi tlodi neu sydd ddim yn gwybod beth yw tlodi yn ymwybodol o'r mater. Yn ei dro, gall hyn helpu wrth leihau stigma ac agweddau negyddol.

*“[Dylai ysgolion] sgwrsio am bethau fel tlodi fel rhan o’r cwricwlwm er mwyn creu empathi ymhlith myfyrwyr.”*

(Rhiant/gofalwr, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf

**Dyma bethau pwysig i’w cadw mewn cof wrth sgwrsio gyda dysgwyr am dlodi:**

- Ewch ati i greu gofod diogel i sgwrsio. Sicrhewch fod gan ddysgwyr gyfleoedd i siarad a sgwrsio gyda chi am dlodi’n breifat.
- Os byddwch chi’n siarad am dlodi yn yr ystafell ddosbarth neu gyda grwpiau, cofiwch beidio â datgelu bod dysgwyr yn byw mewn tlodi os nad ydyn nhw’n dymuno i bobl eraill wybod hynny. Dywedwch wrth y dysgwyr ar ddechrau’r sgwrs nad ydych chi eisiau enwi neb.
- Osgowch gynnal y sgyrsiau hyn ar ddiwedd y diwrnod. O wneud hynny, fe all y dysgwyr ddod yn ôl atoch chi yn nes ymlaen os bydd ganddyn nhw unrhyw bryderon.
- Defnyddio iaith glir a syml. Ceisiwch gynnal y sgyrsiau mewn pytiau bychain.
- Fe all defnyddio celf, drama a chwarae helpu dysgwyr i fynegi eu teimladau a’u profiadau personol heb deimlo’u bod yn cael eu stigmateiddio neu eu hamlygu gan eu cyfoedion.
- Gyda phlant iau, fe allwch chi ddechrau’r sgwrs gan ddefnyddio stori, cymeriad neu byped.
- Rhowch sylw i deimladau’r dysgwyr. Fe all dysgu am dlodi wneud i bobl deimlo’n drist ac yn emosiynol. Rhowch wybod iddyn nhw bod teimlo fel hyn yn naturiol. Ceisiwch gloi ar nodyn cadarnhaol (e.e. ‘rydyn ni’n chwilio am ffyrdd o helpu’).
- Aralleiriwch unrhyw iaith negyddol y bydd pobl yn ei defnyddio. Er enghraifft, os bydd rhywun yn dweud, “mae rhai pobl yn byw mewn tlodi gan nad ydyn nhw’n gwybod sut i gyllidebu’n iawn”, fe allech chi ddweud yn hytrach, “mae pobl sy’n byw ar incwm isel yn gorfod rheoli pob ceiniog maen nhw’n ei wario’n ofalus – a fydd cyllidebu ar ei ben ei hun ddim yn helpu os nad oes gan rywun ddigon o arian i dalu’r holl filiau.”
- Rhowch safbwyntiau gwahanol i’r dysgwyr. Bydd plant yn aml yn ailadrodd popeth y byddan nhw’n ei glywed gartref, gan gynnwys camargraffiadau am bobl mewn tlodi. Fe all fod yn bwnc anodd i’w drafod, ond mae’n bwysig cydnabod ein bod ni’n byw mewn byd lle mae llawer o iawn anghydraddoldeb, ond gan roi pwyslais ar obaith o hyd.
- Sgwrsiwch am dlodi yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig ac mewn cyd-destun lleol ill dau. Mae ystadegau lleol i’w cael ar wefan End Child Poverty (endchildpoverty.org.uk/).

### Enghraifft o sgwrs: Stori Rhys

Mae modd defnyddio’r stori-wneud isod, am fachgen o’r enw Rhys sy’n byw mewn teulu un rhiant ar incwm isel, i drafod tlodi gyda phlant a phobl ifanc. Fe allwch chi addasu tôn y stori ac oedran Rhys yn dibynnu ar y grŵp. Mae’r ymarfer hwn wedi’i brofi mewn ysgolion ledled y Deyrnas Unedig a dangoswyd ei bod yn ffordd dda o drafod tlodi gyda dysgwyr heb stigmateiddio neb.

‘Mae Rhys yn ddeg oed. Mae newydd symud i’r ardal hon gyda’i fam a’i chwaer fach, Angharad, sy’n dair oed. Mae Rhys ar fin dechrau yn eich ysgol chi. Mae Rhys braidd yn nerfus gan nad yw’n gwybod beth i’w ddisgwyl. Mae eisiau perthyn a bod yn hapus. Mae’n gobeithio gwneud ffrindiau ac y bydd yr athrawon yn garedig. Mae’n gobeithio y bydd yn gallu gwneud y gwaith ac y bydd clwb cyfrifiaduron fel yn ei hen ysgol.

‘Mae gan Rhys berthynas eithaf da â’i deulu – mae Angharad yn dipyn o niwsans, weithiau, ond mae Rhys yn hoff ohoni, go iawn. Roedd ei fam yn arfer gweithio mewn swydd ran amser yn Tesco gerllaw roedden nhw’n arfer byw, ond ers symud yma, mae hi’n ei chael hi’n anodd dod o hyd i swydd arall a fydd yn cyd-fynd ag oriau meithrinfa Angharad. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o arian gartref ac weithiau mae Rhys yn gwybod bod ei fam yn teimlo o dan straen wrth feddwl am dalu biliau a phethau tebyg.

Mae hi'n aml yn dweud wrth Rhys na allan nhw fforddio'r pethau y mae arno'u heisiau, fel gemau cyfrifiadurol newydd a ffôn.'

Fe allwch chi ddefnyddio cwestiynau trafod i ddeall sut y byddai Rhys, neu unrhyw ddysgwr o deulu incwm isel, yn profi'r diwrnod ysgol. Fe allech chi ofyn:

- Am beth fyddai angen i Rhys dalu yn eich ysgol chi?
- Pa fath o bethau sy'n costio llawer o arian? A oes unrhyw bethau y byddai Rhys yn ei chael hi'n anodd eu fforddio?
- A fyddai Rhys yn teimlo'n wahanol neu'n teimlo nad yw'n cael ei gynnwys drwy beidio â bod â llawer o arian? Beth fyddai'n ei frifo'n fawr? Sut fyddai'n teimlo a beth fyddai'n ei wneud?
- Pa gymorth sydd gan eich ysgol chi a allai fod o fudd i Rhys? Sut allech chi sicrhau bod Rhys yn teimlo'i fod yn cael ei groesawu yn eich ysgol chi?

**Enghraifft o sgwrs:** Esbonio tlodi ac aralleirio iaith negyddol

**Athro:** Tlodi yw pan na fydd gan rywun ddigon o arian i wneud yr un pethau â'i ffrindiau. Er enghraifft, gallai plentyn fod yn dlawd os nad oes gan ei rieni ddigon o arian i wresogi'r cartref, i brynu cyfrifiadur i wneud gwaith cartref, neu i dalu am deithiau ysgol. Yn anffodus, mae'n broblem gyffredin yn ein gwlad ni.

**Dysgwr:** Weithiau mae hyn gan fod rhieni'r plant yn ddiog ac yn ddi-waith.

**Athro:** Yn anffodus, mae nifer o bobl yn ein gwlad ni'n byw mewn tlodi hyd yn oed os oes ganddyn nhw waith, oherwydd nad ydyn nhw'n dal i ennill digon o arian. Weithiau, fydd dim modd i bobl weithio, er enghraifft os oes yn rhaid iddyn nhw ofalu am rywun.

**Dysgwr:** Ond does dim pobl dlawd yn ein hysgol ni, nag oes?

**Athro:** Rydw i'n gwybod ei fod yn drist meddwl am hyn, ond wrth i gostau gynyddu'n gyflymach nag incwm pobl, fe all nifer o deuluoedd yn ein cymuned ei chael hi'n anodd talu eu biliau a thalu am yr holl bethau sy'n costio arian. Dyna pam ein bod ni'n gweithio'n galed iawn i helpu'r holl deuluoedd, er enghraifft drwy sicrhau nad yw digwyddiadau yn yr ysgol yn costio llawer o arian.

**Am beth ddylwn i gadw golwg?**

Hyd yn oed pan na fyddwch chi'n siarad yn uniongyrchol am dlodi, mae'n bwysig sicrhau nad ydych chi'n defnyddio iaith sy'n cau allan blant sy'n byw mewn tlodi yn anfwriadol. Efallai y bydd rhai trafodaethau yn y dosbarth yn amlygu'r anghydraddoldebau ariannol rhwng dysgwyr. Er enghraifft, fe all gofyn 'Beth wnaethoch chi yn ystod y gwyliau?' fod yn anodd i ddysgwyr y mae eu teuluoedd wedi'i chael hi'n anodd fforddio bwyd, gwresogi neu deithiau. Yn hytrach, fe allech chi ofyn, 'Gyda phwy wnaethoch chi dreulio amser?'

## Sgwrsio gyda rhieni a gofalwyr am dlodi, costau ac arian

Mae llawer o gostau'n gysylltiedig â mynd i'r ysgol, a bydd nifer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio popeth y mae ei angen ar eu plant, hyd yn oed oes ydyn nhw'n gymwys i gael grantiau i helpu i dalu rhan o'r gost. Rydyn ni'n gwybod hefyd nad yw nifer o deuluoedd yn llwyddo i hawlio'r cymorth y mae ganddyn nhw hawl iddo gan nad ydyn nhw'n gwybod ei fod ar gael iddyn nhw – er enghraifft, camargraff cyffredin yw nad oes modd i blant gael Prydau Ysgol am Ddim neu'r Grant Datblygu Disgyblion os yw eu rhieni neu eu gofalwyr yn gwneud unrhyw fath o waith am dâl. Bydd y camau isod yn eich galluogi i greu diwylliant yn yr ysgol sy'n sicrhau bod pawb yn cael y cyfle gorau i gael y cymorth y mae ei angen arnyn nhw, heb gywilydd na rhwystrau ychwanegol.

### 1. Byddwch yn ymwybodol o dlodi

Fe all costau bach, hyd yn oed, fod yn sylweddol iawn i deuluoedd sy'n ymdopi ar incwm isel, a dyna pam mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dlodi mor bwysig. Drwy fod yn ymwybodol bod pob ceiniog a phunt yn bwysig i rai teuluoedd,

mae modd sicrhau bod y staff yn ystyried costau yn ystod yr holl ddiwrnod ysgol ac yn cadw fforddiadwyedd mewn cof wrth gynllunio dysgu a digwyddiadau. Mae deall yr heriau sy'n wynebu teuluoedd sydd ar incwm isel yn fodd o ddangos mwy o empathi ac ymwneud yn well â phobl. Yn y pen draw, mae hynny'n golygu bod modd ymateb yn well.

Mae'n bwysig bod pawb yn cydnabod nad grŵp sefydlog yn y boblogaeth yw pobl sy'n byw mewn tlodi. Bydd gwahanol deuluoedd yn symud i mewn ac allan o dlodi drwy'r adeg. Fe all gael ei achosi gan un digwyddiad anffodus mewn bywyd – fel salwch annisgwyl, colli swydd, neu unrhyw beth arall sy'n achosi i gostau gynyddu neu i incwm ostwng – ac yna bydd teulu a oedd yn gallu ymdopi cynt bellach o dan y llinell dlodi.

Mae'n bwysig deall hefyd bod llawer o stigma ynghlwm wrth dlodi, ac ni fydd nifer o deuluoedd am i bobl eraill wybod eu bod nhw'n mynd drwy amser anodd. Efallai fod rhai teuluoedd hefyd wedi cael profiadau negyddol yn y gorffennol wrth geisio cael gafael ar gymorth. Er mwyn creu amgylchedd y gall pobl ymddiried ynddo, y cam cyntaf yw deall pam mae hi'n anodd i nifer o rieni a gofalwyr roi gwybod i'r ysgol bod ganddyn nhw drafferthion ariannol. Bydd hynny'n galluogi teuluoedd i ofyn ichi am gymorth.

## 2. Arweinyddiaeth a bod yn weladwy

Mae'n hanfodol cael arweinyddiaeth gref a gweladwy wrth sicrhau tegwch a mynd i'r afael â chost y diwrnod ysgol. Yn ôl rhieni, os ydyn nhw'n gwybod bod pawb yn yr ysgol ar yr un dudalen ac yn deall pam mae hyn yn bwysig i deuluoedd ar incwm isel, ac i gymuned yr ysgol gyfan, mae hynny'n gwneud gwir wahaniaeth.

**Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r canlynol:**

- Dull agored a rhagweithiol o weithio sy'n cael ei arwain o frig yr ysgol: Fydd teuluoedd ddim yn ysu i ddatgelu eu hamgylchiadau ariannol wrth ysgolion, ond bydd dull rhagweithiol yn dangos ei bod hi'n bosibl cael y sgyrsiau hyn a bod croeso i bobl drafod y materion hyn.
- Dull syml a di-ffws o gyfathrebu â rhieni a gofalwyr, sy'n cydnabod y gallai unrhyw deulu wynebu caledi ariannol unrhyw bryd.
- I gyd-fynd â hyn, mae angen doethineb, cyfrinachedd, caredigrwydd a diffyg beirniadu pan fydd teuluoedd yn cysylltu. Mae'n bwysig deall pa mor anodd y gall hi fod i deuluoedd wrth drafod costau ac arian.

Pan fydd ysgolion yn dangos yn glir sut maen nhw'n mynd i'r afael â chostau ac yn siarad yn agored am hynny, fe all helpu pobl i beidio â theimlo cywilydd, ynghyd ag annog teuluoedd i godi pryderon am gostau.

## 3. Peidiwch â thybio dim, a rhowch wybod i bawb

Peidiwch â thybio bod teuluoedd yn ymdopi'n ariannol. Yn hytrach, dangoswch i bawb eich bod chi'n ymwybodol o dlodi cudd, ac esboniwch fod cymorth ar gael, fel nad oes neb yn syrthio drwy'r rhwyd.

*"Mae'n anodd iawn eu canfod [y teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi], ac rydw i wedi cnoi cil yn hir iawn am hyn; sut mae eu canfod pan na fydd pobl yn barod i godi'u dwylo i ddweud hynny? Mae'n golygu meddwl pwy y mae angen y cymorth arnyn nhw, mân arwyddion ymhlith y plant. Mae gan ein plant berthnasau cryf iawn â'r athrawon, ac mae rhai wedi dweud eu bod nhw'n llwgu, efallai. Rwy'n credu ei bod hi'n wych bod ganddyn nhw berthynas lle gallan nhw ddweud hynny. Ond mae'n anodd iawn, yn hytrach nag edrych ar eu gwisg ysgol wrth iddyn nhw gyrraedd, neu chwilio am arwyddion bach. Mae'n anodd iawn. Mae gan rywun y mannau cychwyn, fel plant sydd ar gofrestri penodol neu sy'n cael prydau ysgol am ddim, ond yn ddiweddar, dros y Nadolig, fe wnaethon ni weithio gyda rhai asiantaethau [i roi basgedi o fwyd ac anrhegion] a bu'n rhaid inni oedi a meddwl, sut mae dechrau meddwl pwy sydd angen hyn. Wrth feddwl am bobl sy'n gweithio ond yn dlawd, yn achos rhai teuluoedd, does dim modd tybio bod y plant hynny [nad ydyn nhw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim] yn iawn."*

(Clerc Ysgol, ysgol gynradd, Castell-nedd Port Talbot)

Mae'n hawdd iawn tybio pethau am incwm teuluoedd. Ond allwch chi ddim gwybod pwy sy'n dlawd drwy edrych ar bobl yn unig. Efallai fod eich ysgol mewn ardal gefnog, ond bod llond dwrn o deuluoedd sy'n byw mewn ardal o amddifadedd mawr. Efallai nad oes llawer o blant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eich ysgol chi. Efallai na fydd pobl yn cwyno am gostau – neu efallai nad ydych chi wedi'u clywed nhw'n cwyno – a bod pobl ar y cyfan fel pe baen nhw'n ymdopi. Mae rhieni'n dweud wrthyn ni nad yw lleoliad ysgolion eu plant yn bwysig, na pha mor gefnog y mae cymuned yn ymddangos. Nid yw hynny'n golygu nad oes teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn yr ysgolion hyn.

*"Nid yw fy ysgol mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol, felly nid oes cyllid ychwanegol, ond mae gennyn ni blant wedi'u cofrestru y mae eu teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, er eu bod nhw'n gweithio oriau hir iawn."*

(Athro, ysgol gynradd, Wrecsam)

**Mae rhieni a gofalwyr yn dweud y canlynol:**

- Dylai ysgolion rannu gwybodaeth ariannol â phob teulu, ac nid y rhai maen nhw'n credu a allai fod ei angen yn unig.
- Drwy hyrwyddo cymorth yn gyffredinol, mae'n golygu nad yw rhieni'n gorfod gofyn am gymorth neu'n gorfod cael eu cyfeirio at gymorth. Mae cyfathrebu'n gyffredinol yn helpu i sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd y bobl iawn – hyd yn oed os nad ydych chi'n gwybod pwy ydyn nhw bob tro.
- Mae cyfathrebu gweladwy ac agored yn agor y drws i gynnal sgyrsiau ac yn annog rhieni i gysylltu pan fydd angen iddyn nhw wneud hynny.

*"Byddai'n wych gallu cyfeirio pobl, gan fod stigma ynghlwm wrth ofyn am gymorth hefyd. Mae llawer o bobl yn bryderus, a byddai rhoi pethau felly yn y cylchlythyr yn fodd o oresgyn y rhwystrau hynny, yn helpu pobl i deimlo nad oes dim o'i le ar gael cymorth ac mai nad nhw yw'r unig bobl sydd angen help."*

(Rhiant/gofalwr, Rhondda Cynon Taf)

## 4. Mynd i'r afael â Chost y Diwrnod Ysgol

Pan na fydd ysgolion yn ystyried pwysau ariannol, fe all rhieni ar incwm is deimlo'n rhwystredig ac yn anweladwy, neu deimlo nad yw ysgolion yn gwerthfawrogi pa mor heriol y gall bywyd fod. Efallai fod yn rhaid iddyn nhw dorri corneli wrth brynu hanfodion eraill er mwyn talu am gostau sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Ond does dim rhaid i bethau fod fel hyn.

Mae Cost y Diwrnod Ysgol yn golygu deall y rhwystrau ariannol, lleihau costau a chynyddu incwm pobl. Drwy gymryd camau gweladwy i leihau costau eich diwrnod ysgol, mae'n fwy tebygol y bydd plant a phobl ifanc yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu cymryd rhan ym mhopeth y mae'r diwrnod ysgol yn ei gynnig. Mae hefyd yn golygu llai o bryderon ariannol i'w rhieni.

*"Oherwydd Covid, roedd yn rhaid inni brynu llawer o bethau i fod yn barod i'r ysgol, ond yn yr ysgol hon, does dim angen gwario llawer o arian."*

(Dysgwr CA2, Rhondda Cynon Taf)

Mae modd lawrlwytho holl ganllawiau ac adnoddau Cost y Diwrnod Ysgol o wefan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant: cpag.org.uk/cosd

## 5. Creu lle i sgwrsio

Mae dulliau sy'n ystyriol o dlodi, sy'n lleihau costau ac sy'n cynyddu incwm cymaint ag y bo modd yn golygu ei bod yn llai tebygol y bydd yn rhaid i rieni gysylltu â chi i ofyn am gymorth gyda chostau na allan nhw'u fforddio. Ond, pan fydd angen i rieni gysylltu â chi, mae gwybod bod cymorth ar gael, gwybod â phwy i gysylltu, a theimlo'n hyderus y byddan nhw'n cael ateb caredig i gyd yn bethau sy'n gallu helpu. Pan fydd sgyrsiau am gostau ac arian yn cael eu cynnal, bydd rhieni'n dweud bod y pwyntiau canlynol yn bwysig i'w cofio: Cofiwch pa mor anodd y gall hyn fod i deuluoedd.

*"Bob tro y byddwn ni'n cael clywed am daith/digwyddiad sy'n gofyn am arian, maen nhw wastad yn cloi'r neges gyda'r geiriau, 'os bydd angen help neu gymorth arnoch chi, cysylltwch', sy'n garedig iawn. Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar tu hwnt, felly pe bawn i mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid imi ofyn am gymorth, rwy'n gwybod y byddwn i mewn dwylo diogel."*

(Rhiant/gofalwr, Castell-nedd Port Talbot)

Mae dangos eich bod chi'n deall, bod yn gyfeillgar, a'i gwneud hi'n 'rhwydd' yn helpu i gael gwared ar gywilydd ac yn gwneud i rieni deimlo'u bod yn gallu sgwrsio. Mae'n bwysig egluro wrth rieni y bydd yr ymateb yn dangos eich bod chi'n deall. Does dim ots pa mor dda fydd eich ateb, fydd rhieni ddim yn gwybod hynny tan y byddwch chi'n dweud wrthyn nhw, ac efallai y byddan nhw'n dal i ofni y byddan nhw'n cael eu beirniadu neu y bydd y sefyllfa'n effeithio'n negyddol ar eu plant.

*"Mae'n anodd i rieni ofyn am gymorth ariannol, gan y byddan nhw'n teimlo y byddan nhw'n cael eu beirniadu."*

(Rhiant/gofalwr, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf)

O ran rhoi gwybodaeth gyffredinol am gymorth ariannol, mae'n hanfodol defnyddio dulliau cyffredinol, agored a gweladwy er mwyn sicrhau nad oes neb yn syrthio drwy'r rhwyd. Serch hynny, wrth gael sgyrsiau am gostau ac arian, mae rhieni'n dweud wrthyn ni eu bod nhw'n hoffi gwybod y bydd y sgyrsiau hyn yn cael eu cynnal yn dawel bach ac yn gyfrinachol. Mae rhieni'n gwerthfawrogi cael y sgyrsiau hyn ar sail un-i-un, ac yn breifat. Mae'n ddefnyddiol cynnig ffyrdd gwahanol i gynnal y sgyrsiau hyn – er enghraifft, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ar-lein neu dros e-bost.

*"Rwy'n credu bod rhieni yn ein hadnabod fel pobl sy'n parchu eu preifatrwydd. Maen nhw'n gwybod y gallan nhw gysylltu â ni ac na fyddai hyn yn mynd ddim pellach. Mae fel un teulu mawr yma."*

(Clerc Ysgol, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf)

Yn ôl rhieni, mae'n ddefnyddiol gwybod gyda phwy y byddan nhw'n siarad. Mae'n bosibl y bydd yr enw cyswllt i sgwrsio am bryderon am gostau neu gwestiynau am gymorth ariannol yn amrywio o'r naill ysgol i'r llall – Swyddogion Ymgysylltu Teuluol, arweinwyr Cost y Diwrnod Ysgol, rhywun yn nhîm arwain yr ysgol, neu efallai'r pennaeth. Y peth pwysig yw bod teuluoedd yn gwybod yr enw, sut y gallan nhw helpu, sut i gysylltu â nhw, a'r math o ymateb maen nhw'n debygol o'i gael. Mae hyn i gyd yn rhoi hyder i rieni i sgwrsio am gostau ac arian.

*"Fe gyhoeddais neges yn gofyn a oedd angen cymorth ar rywun, gan ein bod wedi cael rhoddion, ac fe roddais fy nghyfeiriad e-bost ar y neges er mwyn iddyn nhw allu cysylltu'n breifat ac yn ddi-ffws; o fewn 30 eiliad roedd e-byst yn cyrraedd, sy'n beth braf, oherwydd doedd dim cywilydd yn hynny. Pan fydda' i'n eu ffonio neu'n eu gweld nawr, does dim cywilydd o gwbwl. Os bydd ar rywun angen cymorth, dyna rywbeth y gallwn ni'i wneud [i helpu], a defnyddio'r hyn sydd gennyn ni."*

(Clerc Ysgol, ysgol gynradd, Castell-nedd Port Talbot)

Efallai hefyd y dewch chi ar draws rhieni neu gofalwyr sy'n mynegi safbwyntiau negyddol neu safbwyntiau sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl dlawd. Rydyn ni wedi cynnwys enghraifft o sgwrs yn dangos sut y gallech chi ymateb i rai o'r safbwyntiau hyn.

**Enghraifft o sgwrs:** Delio ag agweddau negyddol tuag at dlodi gan rieni

**Rhiant:** Dydy peidio â chynnal y trip ysgol i Ffrainc eleni ddim yn deg. Dim ond am fod rhai pobl wedi gwario eu holl arian ar deledu sgrin fflat newydd, yn hytrach nag arbed arian.

**Athro:** Mae'n hawdd cyffredinoli, ond y gwir trist amdani yw nad oes gan lawer o deuluoedd yn ein cymuned ddigon o arian i gymryd rhan mewn cymdeithas yn yr un ffordd â phawb arall. Yn anffodus, yn aml nid yw hyn yn ymwneud ag arbed arian. Bydd pobl yn gallu canfod eu hunain mewn tlodi oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, fel gwaith sy'n talu cyflogau isel a gwaith ansicr, costau tai anfforddiadwy, a'r cynnydd mewn costau byw.

**Rhiant:** Ond pam ddylai fy mhlentyn i fod ar ei golled?

**Athro:** Mae dysgwyr yn gallu elwa llawer mwy o weithgareddau'r ysgol os yw eu holl gyfoedion yn cael eu cynnwys. Mae tegwch yn rhan bwysig iawn o genhadaeth ein hysgol ni. Rydyn ni am i holl blant a phobl ifanc yr ysgol hon gael profiad llawn a chyfoethog. Dyna pam ein bod ni'n meddwl am ddewisiadau eraill sy'n cynnwys yr holl ddysgwyr, o bob cefndir.

## Sgwrsio am dlodi gyda chydweithwyr ac yn eich rhwydweithiau ehangach

Fe all sgwrsio am dlodi fod yn heriol, yn enwedig pan fydd pobl sydd â bwriadau da yn cyflwyno safbwyntiau anghywir a chamargraffiadau. Er enghraifft, bydd nifer o bobl yn credu bod tlodi'n perthyn i'r gorffennol; yn credu bod angen i bobl sy'n byw mewn tlodi weithio mwy o oriau neu weithio'n galetach; neu'n credu ei bod hi'n anochel na fydd pethau'n newid.

Fe allen ni gredu y byddai rhannu ystadegau am dlodi neu straeon sy'n torri calon yn fodd o herio credoau pobl, ond yn aml nid yw hynny'n ddigon: mae'n bwysig dangos y darlun llawn os ydyn ni am i bobl eraill ddeall tlodi'n iawn.

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai argymhellion ar gyfer sgwrsio am dlodi mewn ffordd sy'n sicrhau bod pobl yn eich clywed ac yn eich deall (wedi'u haddasu o ymchwil y JRF, 'How to build lasting support to solve UK poverty' a chanllaw Equally Ours, 'Talking About Equality').

> Dangoswch pam mae tlodi'n fater pwysig, drwy apelio at werthoedd cyffredin cyfiawnder a thosturi.

**Enghraifft:** Fel cymdeithas, rydyn ni'n credu mewn cyfiawnder a thosturi. Ond, ar hyn o bryd, mae miliynau o bobl yn ein gwlad yn byw mewn tlodi. Rydyn ni'n rhannu cyfrifoldeb moesol i sicrhau bod gan bawb yn ein gwlad safonau byw gweddol dda a'r un cyfleoedd mewn bywyd, waeth pwy ydyn nhw nac o ble maen nhw'n dod.

> Rhowch sylw i dlodi'n uniongyrchol a'i gyflwyno fel problem o bwys. Osgowch ddechrau drwy sôn am fudd-daliadau neu'r system les, gan fod angen i'r rhain fod yn rhan o'r ateb, yn hytrach na'r broblem.

**Enghraifft:** Mae tlodi ar gynnydd yn y Deyrnas Unedig. Mae mwyfwy o bobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Mae angen inni ddatrys hyn er mwyn i bawb gael bywyd da.

> Osgowch ddefnyddio iaith rhy wleidyddol.

> Defnyddiwch drosiadau i esbonio sut y mae'r economi yn cloi pobl mewn tlodi. Mae geiriau fel 'cloi', 'cyfyngu' ac 'atal' yn helpu i greu darlun meddyliol ac yn helpu pobl i ddeall tlodi'n well. Mae'n ddefnyddiol defnyddio ymadroddion hefyd sy'n dangos sut y mae tlodi'n lleihau cyfleoedd ac yn ei gwneud hi'n anodd i bobl newid eu sefyllfaoedd. Er enghraifft, soniwch am bobl yn cael eu 'tynnu i'r gwaelod gan dlodi' neu am 'gerrynt pwerus' sy'n wynebu teuluoedd, fel cyflogau isel.

**Enghraifft:** Mae tlodi'n cyfyngu ar y dewisiadau y gall pobl eu gwneud, gan eu gadael mewn sefyllfaoedd amhosibl fel gorfod dewis rhwng gwresogi eu cartrefi neu dalu'r rhent. Wrth i gostau byw gynyddu, ac wrth i waith fynd yn fwy ansefydlog, mae ein heconomi yn clymu pobl ac yn eu cloi mewn brwydr ddyddiol i gael dau ben llinyn ynghyd.

> Wrth sôn am atebion (yn yr ystyr ehangaf), fe allwch chi gyflwyno budd-daliadau fel rhywbeth sy'n helpu i lacio gafael tlodi ar bobl, ac esbonio bod yr economi sydd gennyn ni wedi'i dylunio mewn ffordd arbennig, a'i bod hi'n bosibl ei 'hailddylunio'

**Enghraifft:** Mae'r economi sydd gennyn ni heddiw wedi'i dylunio mewn ffordd arbennig. Mae'n ganlyniad i gyfres o benderfyniadau sydd wedi'u gwneud am flaenoriaethau ac adnoddau ein cymdeithas. Mae hi wedi cael ei dylunio, ac felly fe all hi gael ei hailddylunio er mwyn iddi weithio i bawb.

> Defnyddiwch straeon ac ystadegau i gyd-fynd â'r argymhellion hyn: dangoswch y cysylltiad rhwng y rhain a gwerthoedd cyfiawnder a thosturi, a'r ffordd mae'r economi'n cyfyngu ar bobl.

**Enghraifft:** Ysgrifennodd Marcus Rashford lythyr agored at Aelodau Seneddol Lloegr ym mis Mehefin 2020 yn erfyn arnyn nhw i ehangu darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim dros wyliau'r haf (roedd ei alwad yn llwyddiannus). Fe ddangosodd y cysylltiad rhwng ei stori ei hun, ynghyd â straeon ac ystadegau a gafodd eu hanfon ato, a'r strwythur a'r systemau ehangach a oedd yn cyfyngu ar ddewisiadau pobl ac yn eu cloi nhw mewn tlodi. Dyfyniad:

“”

*"Mae fy stori am sut wnes i gyrraedd fan hyn yn rhy gyfarwydd o'r hanner i deuluoedd yn Lloegr: byddai fy mam yn gweithio oriau hir, gan ennill yr isafswm cyflog i sicrhau bod gennyn ni wastad bryd o fwyd da ar y bwrdd gyda'r nos. Ond doedd hynny ddim yn ddigon. Ni chafodd y system ei chreu i helpu teuluoedd fel fy un i i lwyddo, waeth pa mor galed y gweithiai fy mam."*

> Soniwch am greu gwell byd. Atgoffwch y bobl rydych chi'n sgwrsio gyda nhw eich bod chi'n dymuno gweld gwell byd, ac eglurwch fod hynny'n bosibl.

**Enghraifft:** Pe baen ni'n gweithio gyda'n gilydd fel cymuned ysgol, fe allen ni greu amgylchedd sy'n cynnwys yr holl ddisgyblion, go iawn, ac yn galluogi pob plentyn i gymryd rhan lawn yn yr ysgol. Mae ysgolion eraill wedi gwneud llawer o gynnydd yn hynny o beth, ac fe allwn ninnau wneud hefyd.

## Lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â'ch gwasanaethau i leddfu tlodi

Mae'n gynyddol gyffredin i ysgolion yng Nghymru roi amrywiaeth o wasanaethau i leddfu tlodi, yn enwedig ers dechrau pandemig Covid-19. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynlluniau fel darparu cynhyrchion y misglwyf am ddim mewn ysgolion, ac yn rhoi arian i rai ysgolion gymryd rhan mewn cynlluniau pantri cymunedol fel y Big Bocs Bwyd.

O blith aelodau NEU Cymru a gymerodd ran mewn arolwg, dywedodd 59 y cant fod eu hysgol yn darparu o leiaf un math o wasanaeth

ychwanegol i leddfu tlodi i deuluoedd yn eu cymuned. Dyma'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau:

- banc dillad/siop gwisg ysgol am ddim (40 y cant)
- clwb bwyd neu bantri cost isel (15 y cant)
- banc bwyd am ddim (12.5 y cant)
- benthyg dillad ar gyfer y prom (12.5 y cant), a
- golchi dillad ar safle'r ysgol (12.5 y cant).

Mewn lleiafrif o ysgolion, dywedodd aelodau hefyd fod eu hysgol yn cynnig cymorth i gynyddu incwm neu gyngor am hawliau lles (7.5 y cant). Ymhlith gwasanaethau eraill, llai cyffredin, roedd benthyg arian i deuluoedd sy'n wynebu problemau ariannol, rhoi dillad ar gyfer profiad gwaith, a rhoi talebau tanwydd.

Yn ôl yr hyn y mae plant a theuluoedd wedi'i ddweud wrthyn ni, maen nhw'n gwerthfawrogi gallu cael cymorth gan ysgolion pan fydd pethau'n anodd, ond mae gofyn am help yn codi cywilydd ar nifer o bobl, neu maen nhw'n amharod i ddefnyddio cynlluniau rhag i bobl eraill ddod i wybod am eu hamgylchiadau ariannol.

*"Os nad ydyn nhw wedi arfer byw mewn tlodi, a'u sefyllfa wedi newid yn sydyn, rwy'n credu bod rhai rhieni yn gyndyn o ddangos nad ydyn nhw'n gallu ymdopi. Felly mae pethau fel mynd i'r banc bwyd, lle byddwn ni'n gwneud pethau'n dawel bach, yn golygu y gallan nhw daro heibio'n gyfrinachol."*

(Swyddog Lles Ysgol, ysgol pob oed, Castell-nedd Port Talbot)

Pan fydd ysgolion yn gwneud ymdrech i barchu urddas pobl, drwy wneud pethau'n dawel bach ac yn gyfrinachol, mae llai o risg y bydd pobl yn penderfynu peidio â manteisio ar y cymorth sydd ar gael. Wrth gynnig gwasanaeth banciau bwyd a phantri mewn ysgolion, gall rhywun gael ei demtio i'w gwneud hi'n ofynnol i bobl gymryd rhan mewn cynlluniau eraill ar yr un pryd, fel dosbarthiadau rhianta neu wersi cyllidebu. Ond mae teuluoedd yn dweud wrthyn ni y gall hyn godi cywilydd arnyn nhw, gan eu gwneud nhw'n amharod i ddefnyddio'r cymorth y mae arnyn nhw a'u plant wir ei angen. Ystyriwch a allwch chi ddylunio systemau i ddarparu gwasanaethau lleddfu tlodi sy'n blaenoriaethu preifatrwydd y plant a'r teuluoedd sy'n eu defnyddio.

*"Mae llawer o'r cymorth yn cael ei roi'n dawel bach, heb iddo fod yn gyhoeddus, i sicrhau nad ydyn ni'n codi cywilydd ar y disgybl."*

(Teacher, secondary school, Ceredigion)

*"Mae cwpwrdd yn y gornel a bydda' i'n gosod [gwisgoedd ysgol sydd wedi'u rhoi] yn y fan honno. Rwy'n gwybod bod hyn o dan y cownter, braidd, ond nid yw rhieni eisiau mynd at fwrdd yn yr iard lle gall rhieni eraill eu gweld nhw. Gyda chymorth asiantaethau allanol, rwy'n eithaf ymwybodol o'r teuluoedd [a allai fod angen help]."*

(Swyddog Cyswllt Teuluol, Castell-nedd Port Talbot)

Mae ysgolion yn dweud wrthyn ni bod mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau pan fyddan nhw'n blaenoriaethu camau i sicrhau nad yw eitemau sydd wedi'u rhoi yn ymddangos fel elusen. Gallai hyn olygu cynnig y bwyd neu'r nwyddau sydd ar gael i holl gymuned yr ysgol ar sail 'talu beth allwch chi' yn ddienw. Drwy roi arian mewn tun rhoddion neu wneud cyfraniad dienw ar-lein, mae modd i bawb gyfrannu beth allan nhw, a wynebu llai o gywilydd os nad ydyn nhw mewn sefyllfa i dalu.

Mae rhai ysgolion hefyd yn dewis tynnu sylw at fanteision amgylcheddol dewis dillad ail law a lleihau gwastraff bwyd, gan roi llai o sylw ar dlodi a normaleiddio ailddosbarthu adnoddau yn holl gymuned yr ysgol.

Mae rhai ysgolion hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n dewis cael gwisg ysgol wedi'i hailgylchu ar ôl glanhau a pharatoi'r dillad sydd wedi'u rhoi cyn eu cynnig i berchnogion newydd.




*"Gyda'r gwasanaeth ailgylchu gwisg ysgol, rydyn ni'n sicrhau bod yr holl ddillad sy'n cael eu rhoi'n cael eu golchi, eu smwddio, a'u cyflwyno fel rhai 'newydd'. Rydyn ni am i bobl deimlo'u bod nhw'n cael anrheg, er mwyn deall ein bod ni'n gofalu amdanyn nhw a'u plant. Mae pawb eisiau gwneud eu gorau dros eu plant, boed ganddyn nhw arian neu ddim."*

(Cydlynydd banc gwisg ysgol, Rhondda Cynon Taf)

Ar yr olwg gyntaf, efallai ei bod hi'n ymddangos nad yw dull ysgol gyfan neu ddull cyffredinol o gynnig y pethau hyn yn fodd o drechu tlodi (e.e. gan fod hynny'n gwasanaethu'r holl blant), ond mae gwaith ymchwil yn dangos y gall hyn gael effaith arbennig o gadarnhaol ar blant mewn tlodi, os yw'r gweithgareddau'n cael eu dylunio'n iawn. Yn wir, po fwyaf cynhwysol yw'r dull o fwrw ati, y mwyaf tebygol yw hi y bydd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn elwa, gan ei fod yn llai tebygol o achosi stigma. Mae plant yn dweud wrthyn ni bod pethau fel teithiau ysgol, cyrsiau preswyl a chlybiau ar ôl ysgol yn fwy o hwyl pan fydd eu ffrindiau'n gallu cymryd rhan.

Efallai na fydd arferion cynhwysol yn costio llawer nac yn gofyn am newidiadau mawr i sut y gwnewch chi bethau. Yn hytrach, mae'n golygu ystyried a oes modd i blant o deuluoedd incwm is gyfrannu at yr un pethau a'u cyfoedion heb fod unrhyw rwystrau na ellir eu gweld.

*"Roedden ni'n trafod am wneud diwrnod ffilmiau wythnos diwethaf, a byddwn ni'n darparu'r popcorn a'r diodydd. Yn aml, fyddwn ni ddim yn gofyn iddyn nhw ddod â dim byd gyda nhw. Mae'n cael ei roi iddyn nhw gan fod gennyn ni dipyn o blant na fyddai'n gallu dod â phethau i mewn gyda nhw. Felly, yn hytrach na thynnu sylw at y peth, rydyn ni'n ei ddarparu i bawb."*

(Arweinydd ysgol, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf)

Mae'r dull talu beth hoffech chi yn gweithio'n dda os bydd ysgolion am wneud gweithgareddau codi arian cynhwysol hefyd. Mae teuluoedd ar incwm isel yn dweud wrthyn ni y gall diwrnodau codi arian a diwrnodau elusen eu rhoi nhw dan lawer o straen. Maen nhw am i'w plant gael hwyl a mwynhau'r profiad gyda'u ffrindiau, ond yn pryderu y byddan nhw'n amlwg ac yn teimlo cywilydd os na allan nhw gyfrannu rhodd neu brynu'r pethau sy'n cael eu gwerthu. Mae un ysgol yn caniatáu i bawb wneud cyfraniad drwy ofyn yn syml i bob plentyn ddod â darn o arian i'w roi mewn bwced rhoddion, gyda'r athro'n rhoi arian i'r plant nad oedd yn gallu dod ag arian o gartref.

*"Pan fyddwn ni'n codi arian ac ati, dydyn ni bellach ddim yn gofyn am bunt na dim, dim ond i bobl ddod â darn o arian gyda nhw. Dewch â darn o arian, bydda' i'n dweud, ac fe all fod yn geiniog, ond fydd neb yn gwybod gan ei fod yn cael ei bostio yn y blwch casglu, a does neb yn gwybod."*

(Athro, ysgol uwchradd, Merthyr Tudful)

Yn yr un modd, mae rhai athrawon yn ceisio sicrhau bod pot casglu'n cael ei ddefnyddio i dalu am adnoddau angenrheidiol ar gyfer gwersi, heb i hynny amlygu'r gwahaniaethau ariannol rhwng plant. Er enghraifft, bydd athrawon mewn ysgol yng Nghaerffili'n darparu'r cynhwysion coginio i'r holl ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gwersi Economeg y Cartref. Mae bwced rhoddion ar gael ac fe all y dysgwyr roi arian yn hwnnw yn dawel bach ar ddechrau neu ddiwedd y sesiwn, ond does neb yn monitro hyn. Mae'r ysgol wedi canfod mai'r "ateb rhwyddaf oedd rhoi i bawb".

## Cyfraniad ysgolion at drechu tlodi

Yng Nghymru, fel yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, ceir cysylltiad cryf rhwng cyfoeth teulu plentyn a'i gyrhaeddiad addysgol[2]. Wrth i incwm y teulu gynyddu, mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod cyrhaeddiad plant y teulu hwnnw'n gwella hefyd. Yn wir, cynyddu incwm teuluoedd yw'r un peth mwyaf effeithiol y gall llywodraeth ei wneud i wella cyrhaeddiad addysgol[3].

Mae'n anodd mesur tlodi aelwyd a chysylltu hynny â chyrhaeddiad a deilliannau dysgwyr unigol. Yn y rhan fwyaf o astudiaethau, mae cymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim yn cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer tlodi gartref. Yng Nghymru, mae prydau ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno i bawb mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae'n bwysig dweud nad yw nifer o blant sy'n byw mewn tlodi yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan amlaf gan fod eu rhieni neu eu gofalwyr mewn swyddi sy'n cael cyflog isel, sy'n golygu bod eu hincwm fymryn yn uwch na'r trothwy. Os yw teulu wedi ennill incwm sy'n fwy na chyfanswm o £7,400, gan amlaf fydd dim hawl gan y plant i gael prydau ysgol am ddim, hyd yn oed os ydyn nhw'n byw ymhell o dan y llinell dlodi.

*"O'r llaw i'r genau [i rai teuluoedd] yw hi bob wythnos. Allan nhw ddim cael prydau ysgol am ddim gan eu bod nhw'n gweithio ac yn uwch na'r trothwy. Y nhw yw ein pryder pennaf a dweud y gwir, gan eu bod nhw'n uwch na'r trothwy i gael unrhyw gymorth, ond yn dal ar incwm isel iawn, iawn."*

(Athro, ysgol uwchradd, Castell-nedd Port Talbot)

[2] Sizmur, J. et al. (2019), Achievement of 15-year-olds in Wales: PISA 2018 national report. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg
[3] Cooper, K and Stewart, K (2013) Does Money Affect Children's Outcomes? A Systematic Review. Joseph Rowntree Foundation.

Mae llawer o ddata'n bodoli sy'n edrych ar y canlyniadau i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o'u cymharu a'u cyfoedion nad ydyn nhw'n gymwys. Gan fod y data'n rhannu'r holl blant i un o ddau gategori, mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp gan amlaf yn cael ei ddisgrifio fel 'bwlch'. Serch hynny, nid yw nifer o blant sy'n byw mewn tlodi yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae tlodi yn effeithio ar eu cyrhaeddiad hwythau hefyd. Yn wir, mae'n fwy defnyddiol meddwl am y berthynas rhwng incwm teulu a chyrhaeddiad ar ffurf graddiant, gyda chyrhaeddiad addysgol plentyn yn gwella'n raddol wrth i deulu'r plentyn fynd yn fwy cyfoethog.[4]

Mae incwm y teulu'n cael mwy o effaith ar gyrhaeddiad addysgol plentyn nag unrhyw ffactor arall.[5] Yn ei dro, cyrhaeddiad addysgol yw'r rhagfynegydd pwysicaf a ganfuwyd ar gyfer y tebygolrwydd y bydd rhywun mewn tlodi neu'n wynebu amddifadedd materol pan fydd yn oedolyn.

[4] Education inequalities, The IFS Deaton Review (Awst 2022)
[5] Exley, S. Improving Life Chances, Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant

# Diffinio tlodi

Mae tlodi'n golygu mwy na dim ond arian, ond diffyg arian yw prif nodwedd bod yn dlawd. Heddiw, mae tlodi yn broblem wirioneddol ym mhob rhan o Gymru.

Yn 1979, fe wnaeth y seicolegydd Peter Townsend, un o sefydlwyr y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, ddiffinio tlodi fel hyn:

*"Gellir dweud bod unigolion, teuluoedd a grwpiau yn y boblogaeth mewn tlodi pan na fydd ganddyn nhw'r adnoddau i ddilyn y math o ddeiet, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, ac i gael yr amodau byw a'r amwynderau sy'n arferol, neu o leiaf sy'n cael eu hannog a'u cymeradwyo'n eang, yn y cymdeithasau y maen nhw'n perthyn iddyn nhw."*

Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw deall bod tlodi'n beth cymharol – mae rhywun yn dlawd os nad ydyn nhw'n gallu byw i'r un safonau ag y byddai'r rhan fwyaf o bobl eraill yn ei ddisgwyl. Fe all plentyn gael tri phryd y diwrnod, dillad cynnes a mynd i'r ysgol, ond bod yn dlawd o hyd gan nad oes gan ei rieni ddigon o arian i sicrhau ei fod yn gallu byw mewn cartref cynnes, bod ganddo gyfrifiadur i wneud ei waith cartref, neu ei fod yn gallu mynd ar yr un teithiau â'i ffrindiau yn y dosbarth.

Bydd llywodraethau yn mesur tlodi drwy gyfrifo canolrif incwm aelwydydd y Deyrnas Unedig. Os oes gan deulu incwm sy'n 60 y cant neu'n llai na'r canolrif hwn, dywedir bod y teulu hwnnw'n byw mewn tlodi. Ar hyn o bryd, mae tua 700,000 o bobl – 23 y cant o holl boblogaeth Cymru – yn byw ar incwm sy'n is na'r llinell dlodi. Mae plant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi nag oedolion. Yng Nghymru, mae'r gyfradd dlodi ymhlith plant bron ddwywaith y gyfradd ymhlith pensiynwyr.

**Canolrif incwm wythnosol yn y DU yn 2021** (ar ôl costau tai) **£472**

**60% o ganolrif incwm wythnosol yn y DU yn 2021** (ar ôl costau tai) **£283**

# Hyd a lled tlodi plant yng Nghymru

Mae un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw o dan y llinell dlodi – dyna ddeg o blant mewn dosbarth o 30. Mewn rhai ardaloedd, mae'r gyfradd yn uwch, hyd yn oed, ac yn 40 y cant mewn nifer o gymunedau[6].

Mae tlodi plant yn bodoli ym mhob cornel o Gymru. Hyd yn oed mewn awdurdodau lleol mwy ffyniannus, mae o leiaf chwarter y plant yn byw o dan y llinell dlodi ar hyn o bryd.

Mae'r gyfradd tlodi plant yng Nghymru yn uwch nag yn unrhyw un o wledydd eraill y Deyrnas Unedig. Y prif reswm am hyn yw bod gan aelwydydd yng Nghymru gyflogau sy'n is na'r cyfartaledd, a mwy o bobl yn gwneud swyddi sy'n cynnig oriau ansefydlog neu swyddi sydd ar gael ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae tri chwarter y plant mewn tlodi yn byw mewn aelwyd lle mae'r oedolion yn gweithio, ond nid yw swyddi eu rhieni neu eu gofalwyr yn talu digon iddyn nhw osgoi bod yn dlawd.

Yn sgil llai o gyfleoedd i ddod o hyd i swyddi da sy'n ystyriol o deuluoedd, mae hynny'n golygu bod gan Gymru hefyd fwy o blant sydd wedi'u dal mewn tlodi parhaus, hirdymor, na gweddill y Deyrnas Unedig.

Mewn nifer o ardaloedd, mae costau tai hefyd yn uwch na'r hyn y gall teuluoedd ar gyflogau cyfartalog ei fforddio. Yn aml, nid yw nawdd cymdeithasol yn rhoi digon i bontio'r diffyg. Mae hyn yn golygu bod y gyfradd tlodi plant yn uwch, yn enwedig mewn dinasoedd fel Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Mae dros hanner y plant sy'n byw mewn tai rhent yng Nghymru yn byw o dan y llinell dlodi.

Mae rhai teuluoedd yn wynebu risg llawer uwch o dlodi. Yng Nghymru, mae bron i hanner y teuluoedd sydd ag unig riant yn byw mewn tlodi. Mae plant sy'n byw gyda aelod anabl yn y teulu hefyd yn fwy tebygol o lawer o fod yn byw o dan y llinell dlodi na'r rheini mewn cartrefi lle nad oes neb yn anabl. Y gyfradd dlodi yn y Deyrnas Unedig ymhlith plant mewn teuluoedd Du[7] yw 46 y cant. Y gyfradd ymhlith plant ar aelwydydd gwyn ym Mhrydain yw 26 y cant.

Mae newidiadau ym mholisi nawdd cymdeithasol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn golygu nad oes gan deuluoedd sydd â mwy na dau o blant bellach hawl i gael cymorth at gostau magu unrhyw blant eraill sydd wedi'u geni ers mis Ebrill 2018. Mae hyn wedi cynyddu'r gyfradd dlodi ymhlith teuluoedd lle ceir tri neu ragor o blant, gyda bron i hanner yr holl blant yn y teuluoedd hyn yn byw mewn tlodi yng Nghymru, o'i gymharu â 24 y cant o blant ar aelwydydd llai. Mae'r polisi hwn yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd Du.

---

[6] End Child Poverty Coalition (2022) Local Indicators of Child Poverty, After Housing Costs 2020-21.

[7] Du yw'r term y mae aelodau'r NEU yn ei ddefnyddio i olygu'r holl bobl sy'n Ddu, Asiaidd ac wedi'u lleiafrifoli'n ethnig. Mae gwaith yr NEU ym maes hil wedi'i seilio'n barhaus ar safbwyntiau ei aelodau Du drwy strwythurau a fforymau democrataidd sydd yn eu tro wedi'u seilio ar yr aelodaeth ehangach.

# Beth sy'n achosi tlodi?

Nid un peth sy'n achosi tlodi, gan amlaf. Mae amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cynnydd mewn costau byw, cyflogau isel, prinder gwaith a budd-daliadau nawdd cymdeithasol annigonol yn golygu nad oes gan rai pobl ddigon o arian i fwynhau ansawdd bywyd derbyniol.

Er ein bod ni weithiau'n meddwl mai'r un grŵp o deuluoedd yw pobl dlawd dros gyfnod o amser, mewn realiti, mae tlodi yng Nghymru yn beth gweddol ddeinamig. Bydd gwahanol bobl yn symud i mewn ac allan o dlodi o hyd, wrth i'w bywydau a'u hamgylchiadau ariannol newid. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bwysig peidio â thybio pwy sy'n byw mewn tlodi a phwy sydd ddim yn eich ysgol chi. Bydd tua hanner plant Cymru yn treulio amser yn byw mewn tlodi ryw bryd yn ystod eu plentyndod, ond bydd y rhan fwyaf yn gadael tlodi pan fydd amgylchiadau ariannol eu teulu'n gwella.

*Mae newid yn y math o aelwyd yn cyfeirio at y newid yn nifer y pensiynwyr, yr oedolion oedran gweithio a'r plant ar yr aelwyd. Gallai hyn olygu bod rhai pobl yn y teulu wedi ymddeol, neu bod y plant wedi troi'n oedolion.[8]

Fel mae'r tabl as dudalen 26 yn dangos, bydd y rhan fwyaf o bobl yn dianc rhag tlodi drwy gael yr incwm mwyaf posibl, a hynny drwy hawlio'r budd-daliadau nawdd cymdeithasol y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw, ac yna drwy gael gwaith neu weithio oriau hirach. Dyna pam mae arbenigwyr sy'n ceisio trechu tlodi yn annog ysgolion i gynnig gwasanaethau i helpu pobl i gynyddu eu hincwm cymaint ag y bo modd, ynghyd â gofal plant cofleidiol i deuluoedd, gan mai dyma'n aml y ffyrdd gorau o helpu teuluoedd i ddianc rhag tlodi.

*"Mae'r ysgol yn cynnig brecwast am ddim yn y clwb brecwast, llaeth am ddim, a chlybiau ar ôl ysgol am ddim, ac rwy'n credu y bydd y rheini'n helpu pobl sy'n cael trafferthion gyda gofal plant cyn 5pm. O gyfuno hyn ag adegau dechrau/gorffen am yn ail yr ysgol, mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i rieni a chyfle iddyn nhw weithio rhagor o oriau."*

(Rhiant/gofalwr, ysgol gynradd, Rhondda Cynon Taf)

[8] DWP (2022) Income Dynamics: income movements and the persistence of low income, 2010 to 2020.

# Sut y mae tlodi yn effeithio ar fywydau plant

Mae hyd yn oed cyfnod byr mewn tlodi yn cael effaith hir dymor ar ddatblygiad plentyn. Mae unrhyw brofiad o dlodi incwm yn ystod plentyndod yn gysylltiedig â chyfradd farwoldeb uwch ymhlith babanod, problemau iechyd meddwl, gordewdra, salwch cronig, deilliannau addysgol gwaeth, a risg uwch o lawer y bydd pobl yn marw'n ifanc yn oedolion[9]. Mae'r niwed y mae tlodi yn ei achosi yn gronnus – po hwyaf y bydd plentyn yn byw o dan y llinell dlodi, yr uchaf yw'r risg y byddan nhw'n profi effeithiau niweidiol yn y blynyddoedd sy'n dilyn. Mae helpu teuluoedd i ddianc rhag tlodi yn gwneud gwahaniaeth mawr i gyfleoedd bywyd eu plant.

Mae tlodi'n niweidio plant mewn nifer o ffyrdd, a thra bo'r rhan fwyaf o bobl yn deall pam mae diffyg adnoddau materol fel bwyd a dillad yn rhoi plant o dan anfantais, nid yw elfennau perthynol-gymdeithasol tlodi wastad mor amlwg. Mae bod â llai o arian gartref yn gallu golygu bod plant yn cael eu heithrio o nifer o'r profiadau cymdeithasol ac addysgol y mae ysgolion yn eu cynnig. O ddigwyddiadau hwyl a chodi arian i deithiau a dathliadau, mae diffyg arian yn aml yn rhwystro plentyn rhag cymryd rhan. Fe all hyn arwain plant a phobl ifanc i deimlo'n wahanol, yn anhapus, ac wedi'u heithrio.

Mae ymchwil gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd yn dangos bod plant a phobl ifanc o deuluoedd llai cefnog yn fwy tebygol o ddweud eu bod nhw'n fwy unig, eu bod nhw'n llai bodlon â'u bywydau, ac nad ydyn nhw'n mwynhau mynd i'r ysgol. Wrth i ddysgwyr o gefndiroedd incwm isel deimlo'u bod nhw'n cael eu heithrio'n gymdeithasol, mater o gryn bryder yw bod hynny'n cael ei waethygu gan ffurfiau eraill o anghydraddoldeb. Mae plant o gefndiroedd incwm isel sydd hefyd o grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a grwpiau pobl Ddu yn fwy tebygol o ddweud eu bod nhw'n unig ac yn anhapus yn yr ysgol, o'u cymharu â phlant gwyn o Gymru a Phrydain sydd â statws economaidd-gymdeithasol tebyg[10].

**Yn ôl aelodau NEU Cymru a gymerodd ran yn ein harolwg, maen nhw'n sylwi ar effeithiau tlodi ymysg eu myfyrwyr yn rheolaidd, gan gynnwys:**

- dangos arwyddion o flinder (92 y cant)
- ei chael hi'n anodd canolbwyntio (86 y cant)
- dangos arwyddion eu bod nhw'n llwgu yn ystod y diwrnod ysgol (71 y cant)
- dangos arwyddion o salwch (31 y cant)
- cael eu bwlio gan fod eu teuluoedd yn byw mewn tlodi (23 y cant).

Yn ôl ein haelodau, ymhlith yr anawsterau eraill sy'n cael eu hachosi gan dlodi y mae gorbryder a straen difrifol, anallu i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, teimladau o gywilydd a gwarth, a lefelau presenoldeb gwael.

[9] Lai ETC, Wickham S, Law C, et al. Poverty dynamics and health in late childhood in the UK: evidence from the Millennium Cohort Study. Archives of Disease in Childhood 2019;104:1049-1055.

[10] Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Student Health and Wellbeing In Wales: Report of the 2019/20 School Health Research Network Student Health and Wellbeing Survey. Prifysgol Caerdydd.

# Hawliau eraill plant y dylai ysgolion fod yn ymwybodol ohonyn nhw

Ynghyd ag Erthygl 12, mae gan blant nifer o hawliau eraill ac mae angen inni ystyried y rheini hefyd wrth geisio trechu tlodi mewn ysgolion.

- **Erthygl 2 (dim gwahaniaethu):** Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, waeth beth yw ei ethnigrwydd, rhywedd, crefydd, iaith, gallu nac unrhyw statws arall, waeth beth mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, ac waeth beth yw cefndir ei deulu.

- **Erthygl 26 (nawdd cymdeithasol):** Mae gan bob plentyn yr hawl i elwa o nawdd cymdeithasol. Rhaid i lywodraethau roi nawdd cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ariannol a budd-daliadau eraill, i deuluoedd y mae angen cymorth arnyn nhw.

- **Erthygl 27 (safon byw digonol):** Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ateb ei anghenion corfforol a chymdeithasol a'i helpu i ddatblygu. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd na all fforddio darparu hyn.

- **Erthygl 29 (nodau addysg):** Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talent a gallu pob plentyn yn llawn. Rhaid iddi annog y plentyn i barchu hawliau dynol, ynghyd â pharchu ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.

- **Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant):** Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig.

### Y pum prif reswm sy'n achosi i deuluoedd wynebu tlodi

- Gostyngiad yn enillion yr aelwyd (21 y cant)
- Newid i aelwyd unig riant (14 y cant)
- Gostyngiad yn incwm budd-daliadau (12 y cant)
- Gostyngiad yn nifer y gweithwyr ar aelwyd – a'r aelwyd yr un maint (12 y cant)
- Newid yn y math o aelwyd* (deg y cant)

### Y pum prif reswm sy'n achosi i deuluoedd adael tlodi

- Cynnydd yn incwm budd-daliadau (29 y cant)
- Cynnydd yn enillion yr aelwyd (22 y cant)
- Newid yn y math o aelwyd* (16 y cant)
- Cynnydd yn nifer y gweithwyr ar yr aelwyd – a'r aelwyd yr un maint (12 y cant)
- Cynnydd yn nifer y gweithwyr amser llawn ar yr aelwyd – a'r aelwyd yr un maint (11 y cant)

# Cydnabyddiaethau

Fe hoffen ni ddiolch i aelodau NEU Cymru, staff ysgolion, plant a rhieni a gofalwyr sydd wedi'u rhannu eu profiadau a'u syniadau i roi sail i'r canllaw hwn. Diolch i chi am eich ymroddiad wrth sicrhau bod plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn cael y profiad gorau posibl yn yr ysgol.

## Manylion cysylltu

Mae modd cysylltu ag NEU Cymru drwy
**cymru.wales@neu.org.uk**

NEU.ORG.UK

NEU2744W/0922